



YSGOL HAFAN Y MÔR  
Heywood Lane,  
Dinbych y Pysgod/ Tenby,  
SA70 8BZ  
☎ 01834-843248

✉ [admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk](mailto:admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk)

f Ysgol Hafan y Mor, Dinbych y Pysgod



ysgolhafanymor.cymru



@hafanymortenby

Cylchlythyr - 12.11.2021

Calendr Digwyddiadau'r Ysgol

(*cliciwch ar y ddolen er mwyn gweld calendr digwyddiadau'r ysgol*)

### Presenoldeb a phrydlondeb!

- Cofiwch fod yr ysgol yn dechrau am 8.50yb. Mae iet yr Ysgol yn cael ei hagor am 8.40yb ac yn cau am 8.50yb pan mae'r Ysgol yn dechrau! Nid yw'r Ysgol yn dechrau am 9yb.
- Os yw eich plentyn yn sâl neu'n absennol, peidiwch ag anghofio adrodd ar ap Parentmail cyn 9yb! Ni does angen ffonio'r Ysgol hefyd, dim ond cofnodi ar ParentMail os gwlewch yn dda.

Targed presenoldeb yr ysgol: 95.2%

Presenoldeb yr ysgol (01-09-2021 - 05-11-2021): 93.95%



### Diwrnod y Cofio - 11.11.21

Mae disgyblion Cyngor Ysgol Blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn gwerthu pabiau ar ddiwedd diwrnod ysgol i gefnogi'r Llenng Brydeinig Frenhinol, Apêl y Pabi. Mi fydd aelodau hŷn y Cyngor Ysgol; Eirianna, Oliver, Charlie a Caitlyn o dan gofalaeth Mrs King, yn cymryd rhan yn y gorymdaith trwy strydoedd Dinbych y Pysgod ar ddydd Sul, Tachwedd 14eg.

### Ffotos Bluestone - dal i fyny - 16.11.21

Bydd Mike Field, Bluestone Photography yma rhwng 8.30 - 9.30 yp i dynnu lluniau unrhyw blant a oedd yn absennol ddydd Gwener 1 Hydref.

### Brechlyn Ffliw - 18.11.21

Brechlyn fflw i bob plentyn Derbyn - fl.6.

## Plant mewn Angen - 19.11.2021

Mae disgyblion y Cyngor Ysgol wedi penderfynu bod angen i bawb wisgo: Pyjamas neu dillad sydd yn eu gwneud yn hapus a gwneud eu gwallt yn wyllt! Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 neu'n fwy tuag at yr elusen.



## Cystadleuaeth enwi'r ddraig



*Fel rhan o ddathliadau Diwrnod Shwmae rydym yn cynnal cystadleuaeth i 7 plentyn ennill Draig (tegan). Yn anffodus nid oes enw na chartref gyda'r ddraig ac mae hi'n drist iawn. Hoffwn i'r plant feddwl am enw ar gyfer y ddraig a dod mewn ag enw i'r ddraig erbyn dydd Gwener, Tachwedd 19eg. Byddwn yn dewis enw allan o het a'r plentyn sydd â'r enw buddugol bydd yn ennill y ddraig a mynd adref gyda hi!*

## Prynhawn agored i rieni Derbyn, Meithrin a darpar rieni - 15.11.2021 + 24.11.2021

Byddaf yn cynnal taith o amgylch yr ysgol rhwng 4-5yh ar 15fed a 24ain Tachwedd ar gyfer rhieni plant dosbarth Derbyn, Meithrin, Cylch Meithrin a darpar rieni. Gyda'r holl gyfyngiadau sydd wedi bod yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, rwy'n ymwybodol nid yw rhieni wedi derbyn cyfle i ymweld â'r ysgol a theimlaf fod yn bwysig eich bod yn medru gwneud hyn.

Os ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddarpar rieni sydd heb ymweld â'r ysgol, rhowch wybod iddyn nhw am y digwyddiad. Gofynnaf yn garedig, os ydych hefyd yn adnabod unrhyw rieni nad ydynt wedi ystyried addysg gyfrwng Cymraeg ac efallai hoffent edrych o gwmpas yr ysgol a'n darpariaethau i ddod. Gofynnaf yn garedig i bawb sy'n dymuno mynd ar daith o amgylch yr ysgol i roi gwybod i'r ysgol er mwyn cadw lle cyn y diwrnod - [admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk](mailto:admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk) neu 01834 843248.

Bydd angen i bawb sy'n mynychu sicrhau eu bod yn dilyn rheolau'r ysgol parthed Covid19 - gwisgo gorchudd hwyneb, cadw pellter digonol wrth rieni eraill tra eich bod yn yr adeilad a bydd gwiriadau ychwanegol yn digwydd wrth i chi ddod mewn i'r adeilad. Os ydych yn neu wedi bod yn sâl gydag unrhyw symptomau Covid19 plis peidiwch â mynychu'r daith.

## Seren yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Bonnie, Elsie, Elysienna, Aidan, Elspeth, Lola S, Teela a Phoebe F am fod yn sêr yr wythnos hon - 12.11.2021!

## SpellBlast & NumberBlast

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol:

### SpellBlast

### J2NumberBlast

#### Pencampwyr

Bl. 2 - Carys

Dai

Bl. 3 - Joey

Marlii

Bl. 4 - Halle

Nico

Bl.5 - Lola D

Bradley

Bl. 6 - Ollie

Jac

*Cofion gorau a diolch i chi i gyd am eich amynedd a'ch cydweithrediad parhaus*

Mrs Griffiths

Pennaeth